**Pwyllgor Busnes BC335-00(final)**

COFNODION CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 5 Rhagfyr 2000
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Roedd Kirsty Williams, John Lloyd a David Lambert wedi anfon eu hymddiheuriadau. Roedd Peter Black yno yn lle Kirsty Williams yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**BC324-00 (final)**

2.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn iawn ar yr amod bod paragraff 2.3 yn cael ei newid ryw ychydig. Dylid eu cyfieithu yn awr yn barod i'w dosbarthu. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC330-00 (draft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, dylid eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar ffurf terfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion yn codi (BC330-00)**

3.1 **Paragraff 5.1** – Roedd y Trefnydd yn bryderus bod Jocelyn Davies o'r farn bod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai'r Cynulliad yn eistedd am 36 wythnos y flwyddyn. Dyfynnodd Jocelyn Davies o gofnodion y Pwyllgor Busnes ar 31 Hydref (BC272, paragraff 5.2). Nodwyd nad oedd hyn yn cymryd i ystyriaeth dymor cynadledda tair wythnos y pleidiau. Yn ôl y Trefnydd, pe bai'r Pwyllgor yn cytuno ar doriad o dair wythnos dros Nadolig 2001, byddai penderfyniad y mwyafrif yng nghyfarfod yr wythnos diwethaf ynglŷn â dyddiadau'r toriadau yn darparu amser eistedd o 32½ wythnos.

Dywedodd y Dirprwy a Jocelyn Davies y dylai nifer yr wythnosau eistedd gael eu pennu yn ôl y gwaith sydd i'w gyflawni.

3.2 **Paragraff 6.1** – dywedodd Marie Knox y byddai'r Pwyllgor Archwilio a oedd i fod i gael ei gynnal ar 1 Mawrth 2001 yn cael ei gynnal rywbryd arall.

3.3 **Paragraff 7.2** – dywedodd Marion Stapleton bod y cyfreithwyr sy'n drafftio ar gyfer y Cabinet yn trafod â David Lambert y cynigion i adolygu'r Rheolau Sefydlog. Byddai papur yn argymell newidiadau i gydnabod "Gweinidogion" a rhai newidiadau pellach yn cael eu cyflwyno ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 4. Materion wedi'u cyfeirio o'r Cyfarfod Llawn

4.1 Dim.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Gofynnodd Jocelyn Davies a fyddai'r Pwyllgor Busnes yn fforwm priodol ar gyfer rhoi adborth ynghylch unrhyw bryderon, ymholiadau neu sylwadau cyffredinol yn ymwneud â chynnal Cyfarfodydd Llawn. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n siarad â'r Llywydd ynglŷn â hyn. **Gweithredu: Dirprwy Lywydd**

## 6. Pwyllgorau

6.1 Roedd Marie Knox wedi dosbarthu copïau o amserlenni Pwyllgorau Haf a Gaeaf 2001 (BC332-00 a BC333-00). Cytunwyd y dylent gael eu diwygio er mwyn ymgorffori cyfarfodydd cadeiryddion y pwyllgorau rhanbarth cyn eu dosbarthu.

6.2 Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn bryderus am nifer y cyfarfodydd anffurfiol y mae pwyllgorau pwnc yn eu cynnal. Cytunwyd mai mater i'r Panel Cadeiryddion oedd hwn.

## 7. Gwaith yn y dyfodol

### Gwaith yr wythnos hon

7.1 Dywedodd y Trefnydd ei bod yn bosibl y byddai dau ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn yn hwyrach y prynhawn hwnnw mewn ymateb i geisiadau am gwestiynau brys am anghydfod Swyddfa'r Post a cholli swyddi yn Alcan. Deellid bod y Gweinidog dros Addysg hefyd yn bwriadu gwneud datganiad am galedi myfyrwyr. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes a ellid gwneud y datganiad hwn ddydd Iau 7 Rhagfyr o ystyried bod amser yn brin yn y Cyfarfod Llawn. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ymgynghori â'r Gweinidog. **Gweithredu: y Trefnydd**

7.2 Dywedodd y Trefnydd y byddai'r cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Cynnal y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modiwleiddio) (Cymru)

2000 y disgwylir iddo gael ei gyflwyno ddydd Iau 7 Rhagfyr yn cael ei dynnu'n ôl a'i gymryd yr wythnos wedyn.

7.3  Ceisiodd Marion Stapleton gael y Pwyllgor i gytuno i gynnig cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 ddydd Iau 7 Rhagfyr i ethol aelodau newydd i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.  Cytunodd y Pwyllgor, gan y byddai hyn yn galluogi aelodau newydd y Cyngor i gyfrannu'n llawn at ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr.  **Gweithredu:  Rheolwyr Busnes i nodi;  Marion Stapleton i osod cynnig heb ddyddiad trafod.**

7.4 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y datganiad busnes drafft (BC334-00).

**Gwaith arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 11-Rhagfyr & 18 Rhagfyr 2000 a 11-& 15-Ionawr 2001**

7.5  Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn gwaith y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau 11 a 18 Rhagfyr 2000 ac 11 a 15 Ionawr 2001 oedd y dylai barhau gan ddilyn yr amlinelliad yn y datganiad busnes drafft.

7.6  Nodwyd y gallai'r adroddiad Grant Arbennig gael ei ystyried ar 12 neu 14 Rhagfyr gan nad oedd y Gweinidog dros Addysg ar gael ar 19 Rhagfyr. Gofynnodd Rheolwyr Busnes a allai'r Dirprwy Weinidog gynnig y cynnig yn lle'r Gweinidog.  **Gweithredu: y Trefnydd i egluro**

**8.  Is-ddeddfwriaeth**

8.1  Dim.

**9.  Adolygu Rheolau Sefydlog**

9.1  Gofynnodd Jocelyn Davies a allai swyddogion edrych ar y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud ag aelodaeth y Pwyllgor Archwilio gan fod y darpariaethau cyfredol yn atal Aelodau rhag ystyried materion os ydynt wedi bod yn aelod o bwyllgor pwnc cysylltiedig.  Dywedodd Marie Knox bod cynigion drafft yn cael eu trafod â David Lambert ac y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried maes o law.  Cytunodd y Pwyllgor bod y darpariaethau cyfredol yn rhy gaeth.

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

10.1  Dim.

**11. Unrhyw fater arall**

11.1  Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**